**Cyf: EOC-02-99(min)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

**Dyddiad:** 16 Medi 1999

**Amser:** 09.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Presennol:** **Aelodau**

| | |
|---|---|
| Jane Hutt (Cadeirydd) | Bro Morgannwg |
| Edwina Hart (eitemau 1,2 a 3) | Gyr |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Richard Edwards | Y Preseli a Sir Benfro |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Glyn Davies | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Maesyfed |

**Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Mary Dunford | Cyfarwyddwr Gweithredol, Comisiwn Cyfle Cyfartal |

| | |
|---|---|
| Judith Jones | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| Howard John | Cyfarwyddwr, Anabledd Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Pennaeth Adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Charles Willie | Pennaeth Uned Polisi Cydraddoldeb |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Janet Ryder.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

1.1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynodd Judith Jones, a oedd yn cynrychioli'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Hefyd croesawodd gynrychiolwyr Clymblaid Genedlaethol Menywod Cymru a oedd yn arsylwi'r cyfarfod.

1.2. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf ar rai materion a gododd yn y cyfarfod cyntaf:

- Roedd yr holiaduron gofal plant wedi cael eu rhoi i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cynorthwyol ond ni chafwyd ymateb llawn hyd yma. Anogodd y rhai nad oeddent eisoes wedi ymateb i wneud hynny erbyn 17 Medi, sef y dyddiad cau ar gyfer ymatebion.
- Ers y cyfarfod diwethaf, dosbarthwyd gwybodaeth ar yr Her Arweinyddol.
- Roedd yr Ysgrifennydd Cyllid wedi cytuno i roi gwybodaeth reolaidd i'r Aelodau am y datblygiadau gydag adeilad newydd y Cynulliad a threfniadau mynediad.

1.3 Rhai datblygiadau pwysig i'w nodi oedd:

- roedd y Cadeirydd, y Prif Ysgrifennydd a'r Cwnsler Cyffredinol wedi annerch cyfarfod cychwynnol Fforwm Ymgynghorol y Lleiafrifoedd Du ac Ethnig yn Adeilad Pierhead ar 24 Gorffennaf. Roedd y digwyddiad hwn yn gadarnhaol iawn a sefydlodd gamau ymarferol ar gyfer y dyfodol. Bydd y Fforwm yn cael ei lansio'n ffurfiol yn gynnar ym mis Tachwedd.

- Cynhaliwyd sioe deithiol Gwrando ar Ferched yng Nghymru ym mis Gorffennaf, a arweiniwyd ar y cyd gan Margaret Jay a’r Cadeirydd. Bydd cyfraniadau o Gymru yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Gwrando ar Ferched y bwriedir ei gyhoeddi ym mis Hydref.
- Er mai’r Swyddfa Gartref sydd â’r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Ddeddf Hawliau Dynol, mae gan y Cynulliad rôl bwysig i’w chwarae wrth sicrhau y caiff ei gweithredu yng Nghymru. Roedd y Pwyllgor yn fforwm naturiol i oruchwylio’r cynnydd yn hyn o beth.

**Eitem 2 ar yr Agenda: "O Gyfleoedd Cyfartal i Hawliau Dynol" – Cyflwyniad gan Neil Wooding, Pennaeth Uned Cydraddoldeb NHS Cymru**

2.1 Cyflwynodd Neil Wooding drosolwg o berfformiad ar faterion cydraddoldeb o fewn NHS Cymru. Amlinellodd rôl Uned Cydraddoldeb NHS Cymru i hybu cyfle cyfartal ar gyfer ei holl staff a’r cyhoedd sy’n defnyddio ei wasanaethau.

2.2 Mater allweddol oedd herio ein hamgyffrediad o beth yw cydraddoldeb a’r ffyrdd o fynd ati er mwyn ei gyflawni. Er enghraifft, byddai ymagwedd gynhwysfawr yn gofyn i adnoddau gael eu hymroi i addysg (gan leihau anfantais o’r cychwyn) a gwasanaethau i’r henoed (gan wella eu gallu). Byddai ymagweddau sy’n canolbwyntio ar osod gwerth ar alluoedd pob unigolyn yn dod â ni yn agosach at seilio polisïau ar hawliau dynol yr unigolyn yn hytrach nag ar eu cyflwr cymharol.

2.3 Yn y drafodaeth, bu’r Aelodau yn ystyried sut y gellid cymhwyso’r gwersi sydd i’w dysgu i bob sefydliad a phwysleisiwyd pwysigrwydd monitro i asesu cynnydd. Anogwyd y Pwyllgor i ystyried ei rôl wrth annog sefydliadau eraill, gan gynnwys Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, i barchu polisïau cyfle cyfartal yn hytrach na’u trafod yn unig.

**Eitem 3 ar yr Agenda: "Deall Anabledd" – Cyflwyniad gan Howard John, Cyfarwyddwr, Anabledd Cymru**

3.1 Arweiniodd Howard John drafodaeth a ganolbwyntiodd ar archwilio sut y mae’r Cynulliad yn mynd i’r afael â materion cydraddoldeb a’r camau gweithredu a allai ddeillio o hyn. Pwysleisiodd rôl y Cynulliad wrth wneud penderfyniadau a’r ffaith bod pob penderfyniad a pholisi yn effeithio ar bobl anabl ac yn cael eu dylanwadu gan bobl anabl.

3.2 Roedd trwch y sylwadau unwaith eto yn ymwneud ag arwyddocâd monitro a gosod targedau wrth gyflawni cyfle cyfartal. Ystyriwyd diwylliant cyfredol y Cynulliad a phwysleisiwyd pwysigrwydd ystyried materion cydraddoldeb fel rhan annatod o ffurfio polisi yn hytrach nag ychwanegiad ar y funud olaf. Gall penderfyniadau a wnaed yn llawn bwriadau da fethu ag ystyried anghenion pob grp o fewn ein cymdeithas. Mae gan y Pwyllgor rôl anferth wrth geisio dylanwadu ar farn a gweithredoedd pobl sydd, pa mor ddiniwed bynnag ydynt, yn gallu arwain at ganlyniadau anghyfartal. Mae angen sefydlu rhywbeth diriaethol ac ystyrlon i newid hyn.

3.3 Dywedodd y Cadeirydd ei bod, er mwyn cychwyn y broses hon, wedi ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc i’w gwahodd i weithredu cyfle cyfartal yn eu Pwyllgorau. Roedd

hefyd wedi ysgrifennu at y Trefnydd i holi sut y byddai modd datrys y diffyg cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 ar y Pwyllgor hwn. Cynigiodd y Cadeirydd ei bod hi ac Ymgynghorwyr y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod cynnar â Phanel y Cadeiryddion i drafod pwysigrwydd materion cydraddoldeb yn eu rhaglenni gwaith. Ar hyn o bryd datblygir arweiniad ar gyfer swyddogion ar asesu effaith polisïau a phenderfyniadau ar faterion cydraddoldeb. Byddai'r Pwyllgor yn cael y cyfle i ystyried yr arweiniad hwn pan fyddai'n barod. Cytunwyd y gallai'r Pwyllgor hefyd ddatblygu rhai canllawiau ar gyfer y Pwyllgorau Pwnc i'w defnyddio wrth archwilio gwaith cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Mewnfudo a Lloches – Cyflwyniad gan Mike Boyle, Cymdeithas Llywodraeth Leol**

4.1 Amlinellodd Mike Boyle amserlen a darpariaethau y Mesur Mewnfudo a Lloches y disgwylir iddo dderbyn y Cydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd. Mae'r Mesur yn anelu at ostwng cyfartaledd amser prosesu cyfredol ceisiadau mewnfudwyr o rhwng 3 a 4 blynedd i 6 mis ac yn bwriadu disodli hawl yr ymgeiswyr i fudd-dâl gyda gwasanaethau a chymorth mewn nwyddau a chymorth ariannol o £10 yr wythnos yr un.

4.2 Bwriedir gwasgaru rhwng 3,500 a 5,000 o ymgeiswyr bob blwyddyn i 10 ardal wasgaru, a bydd Cymru yn un o'r ardaloedd hyn. Bydd awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn chwarae rhan arwyddocaol yn y broses newydd, o ran y cysylltiad cyntaf ag ymgeiswyr a'u lles a'u cynnydd wrth ymdoddi i'r gymdeithas. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar faterion ymarferol gwasgaru ymgeiswyr i'r ardaloedd rhanbarthol a bydd yn adrodd yn ôl erbyn diwedd mis Hydref.

4.3 Adroddodd y Cadeirydd fod y Prif Ysgrifennydd yn ysgrifennu i bob awdurdod lleol yng Nghymru gan eu hannog i gyfranogi yn y consortia a fydd yn ymdrin â'r ymgeiswyr a wasgerir yma. Am mai'r Swyddfa Gartref sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros y Mesur, dim ond arsylwi ar ei weithredu yw cylch gorchwyl y Cynulliad. Serch hynny, cododd y Pwyllgor nifer o gwestiynau am oblygiadau'r Mesur, y gost i awdurdodau lleol a mewnfudo'n gyffredinol. Dywedodd y Cadeirydd y bydd cynnydd ar bob un o'r materion hyn yn cael ei arolygu gan y Pwyllgor ac y byddai'n cyfarfod â grwpiau yn y sector gwirfoddol gan gynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru i symud hyn yn ei flaen.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol ar gyfer 1999-2000**

**Papur: EOC 02-99(p.1)**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Bapur a oedd yn nodi cynigion drafft am waith y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol. Roedd yn cynnwys cymysgedd o frîff a phynciau i'w trafod a'u hystyried. Mae'r ymagwedd hon yn adlewyrchu cylch gorchwyl y Pwyllgor a'r blaenoriaethau ar gyfer ei waith y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol. Gwahoddodd aelodau i gyflwyno sylwadau ar y cynigion.

5.2 Codwyd cwestiwn yngln â'r amser a roddir i ystyried drafft cyntaf Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor o gofio na fyddai canlyniadau'r Arolwg Cyfle Cyfartal mewnol ar gael tan fis Ionawr. Byddai

canlyniadau rhagarweiniol o'r Arolwg ar gael cyn mis Ionawr ond hwn yw'r dyddiad y byddai'r canlyniadau i gyd ar gael i'w hystyried. Byddai trafod drafft o'r Adroddiad Blynyddol ym mis Chwefror yn galluogi'r Aelodau i fwrw golwg ragarweiniol dros yr adroddiad a'i strwythur, ei gynnwys, ei dargedau a'i flaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol cyn iddynt ystyried drafft terfynol yr adroddiad ym mis Mai. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a fyddai'n bosibl amserlennu trafodaeth am y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion.

5.3 Awgrymwyd mai ffordd ddefnyddiol o fynd ati fyddai i Aelodau'r Pwyllgor gyfarfod â sefydliadau cydraddoldeb neu'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifol o fewn eu hetholaethau er mwyn rhoi adborth am faterion a phryderon i'r Pwyllgor ac yn y modd hwn hwyluso ei weithredu.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur: EOC 01-99(min)**

6.1  Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod blaenorol yn amodol ar newidiad i baragraff 1.4 i adlewyrchu'n gryfach farn y Cadeirydd bod 'cyfleoedd cyfartal yn ganolog i bolisïau'r Cynulliad.'

6.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm.